Llygaid i weld

Cysyniadau: **Ymddiriedaeth, gwerthfawrogiad, gosod esiampl.**

Amcan: **Dangos fel mae gweddi yn gallu bod o gymorth.**

Cyfarpar: **Cerdyn prawf llygaid fel y gwelir yn y sgript.**

Cyflwyniad:

● Os gwn i faint ohonoch chi sydd wedi bod at optegydd neu feddyg ysgol i gael profi'r llygaid? Er mwyn profi pa mor dda ydych chi'n gweld bydd yr optegydd yn defnyddio siart gyda llythrennau arni. Un debyg i'r siart hon. Mae'r llythyren gyntaf yn fawr ond mae'r llythrennau ar y llinellau eraill yn mynd yn llai ac yn llai. Bydd yr optegydd yn gofyn i chi ddarllen y llythrennau gan ddechrau gyda'r llythyren fawr ar y top. Yna bydd yn cadw cofnod manwl o'r rhai fyddwch chi yn eu camddarllen. Bydd hynny'n penderfynu a fyddwch chi angen sbectol neu beidio. (Os bydd plant yn gwisgo sbectol gellwch ofyn iddyn nhw a fuo'n rhaid iddyn nhw ddarllen llythrennau ar siart debyg i hon.)

● Rhoi cyfle i unigolion ddod allan i ddarllen y llythrennau gan gau un llygad ac yna'r llall. Ydych chi'n meddwl mai cyfres o lythrennau sydd yma neu oes modd gwneud brawddeg o'r llythrennau?



● Yn aml iawn byddwn yn edrych ond nid yn gweld – ddim yn edrych yn graff. Adnod ydi hon o'r Beibl, 2 Brenhinoedd 6:17, a dyma'r geiriau, 'Agor ei lygaid, iddo weld.'

Stori:

Gweddi oedd hon a'r gweddïwr oedd Eliseus y proffwyd. Roedd milwyr Syria yn brwydro'n erbyn Israel. Gwyddai Eliseus fod byddin Syria â'u bryd ar ymosod ar Israel a'u bod, yn barod, wedi gwersylla yn ddigon agos i dir Israel. Ond bob tro roedd hyn yn digwydd byddai brenin Israel yn anfon milwyr yno i amddiffyn ei wlad.

Erbyn hyn roedd brenin Syria yn berffaith sicr fod aelod o'i fyddin yn rhoi gwybodaeth i frenin Israel. 'Pa un ohonoch,' meddai, 'sy'n helpu brenin Israel?'

'Does neb o'n byddin ni yn helpu brenin Israel ond mi wn i pwy sy'n helpu brenin Israel,' meddai un cadfridog.

'Pwy ydi hwnnw?' gofynnodd brenin Syria yn sarrug.

'Eliseus y proffwyd sy'n dweud wrtho.'

'Ewch i chwilio amdano er mwyn i mi ei ddal,' meddai'r brenin.

A chawsant hyd iddo mewn lle o'r enw Dothan. Felly dyma frenin Syria yn anfon milwyr gyda'r nos ac yn amgylchynu'r dref.

Yn y bore bach dyma was Eliseus yn gweld y milwyr ac roedd o wedi dychryn a rhedodd at Eliseus ac meddai, 'Eliseus, fy meistr, beth wnawn ni? Mae milwyr Syria ar eu ffordd.'

Dechreuodd Eliseus weddïo ar Dduw, 'Arglwydd, agor ei lygaid, iddo weld.'

Fe arweiniodd Eliseus fyddin Syria i le arall a dyma frenin Israel yn rhoi bwyd a diod iddyn nhw a'u gadael i fynd yn ôl at eu meistr.

Trafodaeth bellach:

● Sut ddyn oedd Eliseus y proffwyd?

● Gafodd Eliseus ateb i'w weddi?

● Ydych chi'n credu bod y pryd bwyd wedi gwneud gwahaniaeth i agwedd byddin Syria?

- Beth fyddwch chi'n wneud pan fyddwch yn bryderus ac ofnus?

Dyfyniad o'r Beibl:
"Y llygad ydy lamp y corff. Felly, mae llygad iach yn gwneud dy gorff yn olau drwyddo." Mathew 6:22 beibl.net

Emyn: Gweddi sydd fel codi ffôn: Canu Clod 198

Munud i feddwl:
Defnyddiwch eich llygaid i weld angen pobl eraill.

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, pan fyddwn yn ofnus ac yn llawn pryder helpa ni i droi atat ti. Agor ein llygaid i weld ac i sylweddoli dy fod yn agos atom. Amen.